



COD YMDDYGIAD I YMDDIRIEDOLWYR SY’N SWYDDOGION UNDEB ABERYSTWYTH

1. Cyflwyniad

1.1 Mae gan Undeb Aberystwyth God Ymddygiad er mwyn sicrhau fod Ymddiriedolwyr sy’n Swyddogion yn deall yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a’r camau a gymerir os nad ydynt yn bodloni’r ymddygiadau hyn.

Ystyrir Ymddiriedolwyr sy’n Swyddogion yn llais cyhoeddus yr Undeb gan Gomisiwn yr Elusen. Disgwylir iddynt ymddwyn fel yr amlinellir yn y Cod Ymddygiad i Aelodau a’r polisiau ar weithwyr, yn ogystal â’r ymddygiadau penodol a ddisgwylir gan y rheini â swydd fel Ymddiriedolwr o’r elusen.

Nid yw’r Cod hwn yn rhan o’ch cytundeb gwaith, ond rydym yn cadw’r hawl i’w ddiwygio neu ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg.

2. Cwmpas

Mae’r Cod hwn yn cynnwys pob Ymddiriedolwr sy’n Swyddogion etholedig llawn amser yr Undeb.

3. Cod Ymddygiad i Aelodau

Mae disgwyl i Ymddiriedolwyr sy’n Swyddogion gadw a chynnal safonau’r ymddygiad a amlinellir yn y Cod Ymddygiad i Aelodau ac i gytuno i:

- Gweithredu yn unol â pholisiau ac is-ddeddfau Undeb Aberystwyth a gweithio o fewn rheolau’r sy’n ymwneud â’r gweithgareddau rydych chi’n rhan ohonynt;
- Ymddwyn bob tro mewn modd rhesymol a chyfrifol ac osgoi gweithredoedd a allai beryglu eraill yn afresymol a dwyn gwarth ar Undeb y myfyrwyr, y Brifysgol neu ar ein partneriaid;
- Dangos parch a dealltwriaeth i’ch gilydd ac i holl aelodau’r Brifysgol a’r gymuned ehangach;
- Sicrhau bod pob aelod yn teimlo fod croeso iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau, gweithgareddau, gwasanaethau neu ddigwyddiadau;
- Ymddwyn mewn modd rhesymol o ran iaith, sŵn ac ymddygiad;
- Annog eraill i gydymffurfio â’r Cod ac i beidio â phwyso ar eraill na’u hannog i dorri’r safonau ymddygiad hyn.
- Trin holl eiddo Undeb Aberystwyth a’r Brifysgol gyda pharch ac i beidio ag ymyrryd â gallu eraill i fwynhau ein cyfleusterau, ein gwasanaethau neu ein gweithgareddau.

4. Ymddygiad a Ddisgwylir gan Ymddiriedolwyr sy’n Swyddogion

Wrth ddal swydd fel Ymddiriedolwr sy’n Swyddog etholedig llawn amser yr Undeb, mae pob Ymddiriedolwr sy’n Swyddog yn cytuno i’r canlynol:

- Ymddwyn yn ôl dogfen lywodraethol yr Undeb a’r gyfraith, a chydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau’r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys gwybod cynnwys y Memorandwm a’r Erthyglau Cymdeithasu a’r polisiau a’r gweithdrefnau perthnasol.

- Bod yn ymddiriedolwr gweithredol, gan gynnig eich sgiliau, eich profiad a'ch gwybodaeth i'r Undeb.
- Parchu cyfrinachedd y sefydliad, y bwrdd ac unigolion, ond heb ddefnyddio cyfrinachedd fel esgus dros beidio â datgelu materion na ddylai fod yn dryloyw nac agored.
- Cynnal egwyddorion democrataidd yr Undeb a sicrhau eich bod yn deall y rhyngweithio rhwng llais corff y myfyrwyr a llywodraethiant Undeb y Myfyrwyr.
- Manteisio'n gyfrifol ar adnoddau'r Undeb a chydymffurfio â gweithdrefnau'r Undeb wrth hawlio costau.
- Bod yn atebol am fy ngweithredoedd fel ymddiriedolwr yr Undeb, a gadael i unrhyw graffu ddigwydd lle bo'n briodol.
- Derbyn cyfrifoldeb i sicrhau fod yr Undeb yn cael ei redeg yn iawn a chodi materion a chwestiynau mewn modd priodol a sensitif er mwyn sicrhau hyn.

5. Datganiad Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion

Fel Ymddiriedolwr o'r elusen, mae'n rhaid i bob Ymddiriedolwr sy'n Swyddog etholedig ddeall yr amodau canlynol a chytuno iddynt.

5.1 Rheoli Buddiannau

- Byddwch yn gweithio er budd yr Undeb, ac nid ar ran unrhyw grŵp arall wrth ystyried yr hyn sydd fwyaf buddiol i'r Undeb a'i fuddiolwyr heddiw ac yn y dyfodol.
- Byddwch yn osgoi dwyn gwarth ar yr Undeb. Mae hyn yn cynnwys cynnal safonau uchel o ymddygiad proffesiynol ac osgoi gwneud sylwadau yn gyhoeddus am y sefydliad oni bai y cewch ganiatâd.
- Ni fyddwch yn eich rhoi mewn sefyllfa lle bydd eich buddiannau personol yn groes i'ch dyletswydd i weithio er lles y sefydliad. Lle bydd gwrthdaro buddiannau, byddwch yn sicrhau y caiff ei reoli'n effeithiol yn unol â pholisi'r Undeb.
- Rydych yn deall y gallai methu â datgan gwrthdaro buddiannau gael ei ystyried yn achos o dorri'r cod hwn.

5.2 Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

- Byddwch yn ymdrechu i fynychu pob cyfarfod priodol ac unrhyw apwyntiadau yn yr Undeb neu anfon eich ymddiheuriadau lle na fydd yn bosib.
- Byddwch yn ymbaratoi yn llawn ar gyfer pob cyfarfod a gwaith i'r sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys darllen papurau, holi ynghylch unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall, cnoi cil ar faterion cyn cyfarfodydd a chwblhau unrhyw dasgau a bennir imi yn yr amser y cytunwyd arno.
- Byddwch yn rhan weithredol o drafodaethau, dadlau a phleidleisio mewn cyfarfodydd; yn cyfrannu mewn modd ystyrlon a buddiol, yn gwrando'n astud, yn herio'n sensitif ac yn osgoi gwrthdaro.
- Byddwch yn cyfrannu'n weithredol at wella llywodraethiant Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan gymryd rhan mewn cynefino a hyfforddiant a rhannu syniadau ar gyfer gwella y bwrdd.
- Byddwch yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar y cyd, derbyn penderfyniad gan fwyafrif y bwrdd, ac ni fyddwch yn gweithredu fel unigolyn oni bai y cewch chi ganiatâd felly.

5.3 Perthynas ag Eraill

- Byddwch yn ymdrechu i weithio'n ystyriol a pharchus gyda phawb y dewch chi ar ei draws yn yr Undeb. Byddwch yn parchu amrywioldeb, gwahanol swyddi a ffiniau, ac osgoi sarhau.
- Rydych chi'n cydnabod bod swyddi ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a staff yr Undeb yn wahanol, ac y byddwch yn ceisio deall a pharchu gwahaniaethau'r swyddi hyn.
- Rydych chi'n cytuno i godi yn uniongyrchol unrhyw bryderon neu faterion sy'n ymwneud â staff unigol yr Undeb gyda'r Prifweithredwr/wraig.
- Rydych chi'n cytuno i ddatgan perthynas bersonol bresennol gyda gweithiwr arall, myfyriwr, neu gleient neu gwsmer i'r Undeb neu i ddatgan os byddwch yn cychwyn ar berthynas bersonol glos gyda chydweithiwr neu fyfyrwr yn ystod dy amser yn y swydd. Fe wnewch ddatgan hyn i'r Prifweithredwr/wraig yn y lle cyntaf.

6. Torri'r cod hwn

Rhoddwyd y Cod Ymddygiad hwn at ei gilydd er mwyn darparu cyfarwyddyd ar gyfer Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion yr Undeb.

Mae'n rhaid i bob Swyddog gydymffurfio â gofynion y cod hwn a pholisïau a gweithdrefnau yr Undeb ac y caiff torri'r rhain ei gymryd o ddifri ac a allai arwain i ddiswyddo yn rhan o'r camau disgyblaethol a gymerir.